Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang yng Nghymru

www.psba.org.uk

psba

Rheoli buddion

galluogi cyflenwi gwasanaethau

"Mae cysylltu â'r rhwydwaith CBESC yn paratoi'r ffordd ar gyfer ystod o fuddion busnes tymor hwy. Trwy fabwysiadu ymagwedd gyson at gynllunio a mesur y buddion hyn, gall sefydliadau ar y cyd ddangos a chael gwerth mwy o fod yn rhan o gymuned CBESC."

Mae CBESC yn cyflwyno rhwydwaith sy'n rhatach ac sy'n mynd y tu hwnt i'r buddion a gynigir gan rwydweithiau eraill. Mae'n cynnig gwerth ariannol uwch, yn cyflwyno isadeiledd cyffredin ac iaith gyffredin ar gyfer cydweithredu ac mae'n cynnig llwybr caffael effeithiol i gefnogi 'Prynu Unwaith i Gymru'.

Mae sector cyhoeddus Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol yn CBESC ac mae'r rhan fwyaf o sefydliadau eisoes yn gweld y manteision o'r buddsoddiad hwn ar ffurf arbediadau mewn costau rhwydweithiau. Ond mae CBESC yn fwy na phrynu rhwydwaith. Mae'n cynnwys cefnogi gweledigaeth tymor hwy sef rhannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd: y sector cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer dinasyddion.

Yn ymarferol, mae CBESC wir yn helpu sefydliadau i drawsffurfio'r ffordd y maent yn cyflawni eu busnes.

Elwa ar botensial CBESC

Mae Rhaglen CBESC yn ymroddedig i hyrwyddo ystyriaeth a thrafodaeth mewn perthynas â'r buddion sy'n bosibl. Gallwn gynnig cymorth ymarferol ar gyflawni'r rhain trwy ddefnyddio'r technegau **'rheoli gwireddu buddion'** rydym wedi eu mabwysiadu.

Mae rheoli gwireddu buddion yn ymwneud ag egluro'r hyn a ddymunwch o'ch buddsoddiad; sut mae hyn yn cyfrannu at nodau cyffredinol eich sefydliad; adnabod dangosyddion llwyddiant clir a mesuradwy a chymryd camau i roi yn eu lle y bobl; y gweithdrefnau a'r ffactorau technolegol sydd eu hangen i sicrhau y caiff y budd ei wireddu.

Mae adnoddau CBESC yno i helpu

Yn rhy aml, caiff egwyddorion y gweithgaredd hwn eu cuddio o dan len o ddirgelwch; nid oes rhaid i hyn ddigwydd. Gall CBESC ei gwneud yn hawdd i'ch sefydliad trwy ddarparu ystod o adnoddau i'ch helpu:

- Deall buddion CBESC a nodi sut gall y rhwydwaith a'i wasanaethau gefnogi a gwella eich gwasanaeth. Trwy ddefnyddio profiadau rhanddeiliaid, mae CBESC wedi creu **cronfa ddata o fuddion** i ddangos yr hyn y mae'n bosibl ei gyflawni trwy weithredu.
- Creu achos busnes lleol ar gyfer buddsoddiad CBESC. Mae CBESC wedi cynhyrchu **catalogau buddion a thempled achos busnes** i helpu i ddiffinio a mesur yr hyn y dymunwch ei gyflawni trwy gysylltu â CBESC.
- Penodi eich **Rheolwr Buddion** eich hun i gynllunio a chyflawni'r buddion a ddymunwch. Mae gan CBESC ddeunyddiau i **lywio rôl, cyfrifoldebau a gweithgareddau** eich Rheolwr Buddion.
- Rhoi yn eu lle **dulliau syml i ddangos gwerth cysylltedd â CBESC i'ch sefydliad chi** a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Mae gan CBESC ddulliau a thechnegau i'ch helpu i olrhain, mesur a rheoli cyflawniad eich buddion yn gyson.

10410

LOGICALIS
Cyflenwr y Rhwydwaith PSBA
The PSBA Network Supplier

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru
Working in partnership with Welsh Assembly Government